# PANEL PENODIADAU ARBENNIG
# (CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: DYSGU GYDOL OES)

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Llun 6ed Hydref am 3.00 p.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J Bellis, J Chamberlain Jones, J A Davies, H H Evans, R W Hughes, T R Hughes, M M Jones a D I Smith.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim: Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Personél, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ac S Evans (CLlLC)

## YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd I A Gunning

## 1 PENODI CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd H H Evans yn cael ei benodi'n Gadeirydd.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd H H Evans yn Gadeirydd.*

## 2 EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 3 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: DYSGU GYDOL OES – TREFNIADAU RECRIWTIO

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gytuno'r broses ar gyfer recriwtio, sef amserlen, hysbysebu, cyfranogiad rhanddeiliaid, llunio rhestr hir a chyfweliadau terfynol.

Hysbyswyd yr Aelodau mai Gatenby Sanderson, a fyddai'n dod ag elfen o annibyniaeth i'r broses recriwtio, oedd ymgynghorwyr recriwtio'r Cyngor ar gyfer holl swyddi Penaethiaid Gwasanaeth a swyddi uwch.

Ystyriodd yr Aelodau yr amserlen ddrafft ar gyfer recriwtio a chynnig y dylid ystyried cyfarfod anffurfiol rhwng yr ymgeiswyr a'r holl Aelodau ar fore'r 17eg Rhagfyr. Ar ôl cyngor gan Gatenby Sanderson mai hysbysebu cyfyngedig a fyddai yn ychwanegol at y gweithgareddau chwilio y byddant yn eu hymgymryd, daeth yr Aelodau i'r casgliad na ddylai costau hysbysebu fynd dros £10k.

Yna ystyriodd y Panel gyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses recriwtio a dod i'r farn y dylid cynnwys nid yn unig y bobl hynny a grybwyllir yn yr adroddiad ond hefyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol, Cadeirydd Craffu Dysgu Gydol Oes ynghyd â llywodraethwyr ysgolion, a bod Cadeirydd Ffederasiwn y Penaethiaid yn cael gwahoddiad i fynychu'r broses gyfweld derfynol. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Prif Weithredwr, fel y rheolwr atebol ar gyfer deiliad y swydd hon, yn ymgymryd â chyfweliadau un-i-un gyda'r ymgeiswyr ac y dylai'r Cadeirydd, fel Arweinydd, ymgymryd â chyfweliad tebyg gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes.

Mewn perthynas â rhestr hir, derbyniodd yr Aelodau bod Gatenby Sanderson yn cael gwahoddiad i lunio'r rhestr hir yn erbyn y meini prawf a gytunwyd ar gyfer y rôl a bod adroddiad ar y canlyniad yn cael ei gyflwyno i'r Panel.

Ailadroddodd y Prif Weithredwr ei bod yn hanfodol bod cyfweliadau terfynol yn cael eu cynnal cyn y Nadolig, fel bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru bod yn ei swydd ar 1af Ebrill 2009.

Yna ystyriodd yr Aelodau a ddylid cynnal y cyfweliad terfynol gan y Panel ar ei ben ei hun, neu'r Cyngor llawn.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar y newidiadau a amlinellwyd uchod, bod y cyfweliad terfynol yn cael ei gynnal gan y Panel a bod yr argymhellion a'r cynnig a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol, oherwydd ei bod y debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.*

## 4 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: DYSGU GYDOL OES – AMODAU A THELERAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar amodau a thelerau'r swydd, gan gynnwys cyflog. Cafwyd trafodaeth fanwl ar y materion a godwyd. Y gofyniad allweddol oedd sicrhau'r person priodol ar gyfer y swydd, rhywun a all yrru gwelliannau mewn addysg ond nad oedd o angenrheidrwydd yn meddu ar brofiad uniongyrchol o waith gwella ysgolion. Roedd yn bwysig mwyhau'r gronfa o ymgeiswyr posibl trwy beidio â phennu gormod o baramedrau a fyddai'n cyfyngu cystadleuaeth a dylid cynnig cyflog deniadol yn unol â chyfraddau'r farchnad.

Fodd bynnag, er mwyn diogelu buddiannau’r Cyngor, roedd angen sicrhad ynglŷn â pherfformiad yr ymgeisydd llwyddiannus a dylai cyfnod prawf felly fod yn orfodol. Mewn perthynas â'r ffaith bod y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol, dylid ei gwneud yn glir y byddai'r Cyngor yn annog a chefnogi'r ymgeisydd

llwyddiannus i ddysgu Cymraeg os nad oedd eisoes yn siarad yr iaith: byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei hysbysu o fwriadau'r Cyngor.

Nododd y Panel bod yr ystod gyflog a gynigiwyd ar gyfer y swydd y tu allan i'r ystod ar gyfer Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac y gallai fod goblygiadau i'r Cyngor oherwydd y penderfyniad hwn.

***Penderfynwyd:-***

*Cymeradwyo'r swydd-ddisgrifiad, yn amodol ar fân newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod, a'r fanyleb person;*

*Bod cyfnod prawf o naw mis yn ofynnol;*

*Cymeradwyo'r cyflog ar gyfer y swydd, sef yn yr ystod £85k i £95k.*

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 p.m.